

Tribiwnlys Anghenion
Addysgol Arbennig Cymru



Special Educational
Needs Tribunal for Wales

Gwahaniaethu ar sail Anabledd mewn Ysgolion Sut i wneud hawliad: Canllaw i rieni

Llinell Gymorth: 0300 025 9800

E-bost: tribunal.enquiries@llyw.cymru

Gwefan: www.taaac.llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.

Ynghylch y cyfarwyddyd hwn

Nod y canllaw hwn yw eich helpu drwy'r broses hawliadau gyda Thriwlynlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC).

Mae'r canllaw hwn yn egluro beth yw'r broses ar gyfer gwneud hawliad am wahaniaethu ar sail anabledd. Ceir ynddo ddisgrifiad o bob cam yn y broses. Clercod y Tribiwnlys yw'r enw a roddir ar y staff sy'n prosesu ceisiadau trwy swyddfa'r Tribiwnlys. Dyma'r unigolion a fydd yn ymdrin â'ch llythyrau, galwadau ffôn a'ch ymholiadau ynghylch gweinyddu eich hawliad. **Ni allant roi cyngor cyfreithiol.**

Mae'r canllaw hwn yn egluro sut i wneud hawliad. Ni all ddweud wrthyich pa mor debygol ydych chi o lwyddo. Bydd Clercod y Tribiwnlys yn hapus i ateb ymholiadau ynghylch gweinyddu eich hawliad wrth iddo fynd rhagddo ond ni allant roi barn ichi a ydych chi'n debygol o ennill neu gollu, ac ni allant ddweud wrthyich ychwaith a ddylech chi gymryd cam penodol ai peidio.

Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn ar gyfer rhieni sydd am wneud hawliad i TAAAC.

Gallai'r canllaw hwn hefyd fod yn ddefnyddiol i blant sy'n dymuno gwneud eu hawliad eu hunain ac i'w cyfaill achos os oes ganddynt un.

Os hoffech gael gwybod mwy am sut y gall plant wneud eu hawliad eu hunain, gofynnwch i ni am gopi o'n **Pecyn Gwybodaeth a'r Ffurflenni I Blant, Rhieni a Chyfeillion Achos.**

Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at y ffurflen hawlio y bydd angen ichi ei llenwi os byddwch am gyflwyno hawliad i'r Tribiwnlys. Mae'r ffurflen i'w chael ar ein gwefan neu gallwch wneud cais am gopi wedi'i argraffu.

Gwybodaeth am TAAAC

Tribiwnlys yw TAAAC. Yn TAAAC rydym yn clywed ac yn gwneud penderfyniadau am hawliadau yn erbyn ysgolion Cymru ac Awdurdodau Lleol lle gwelwyd gwahaniaethu ar sail anabledd mewn addysg plentyn. Mae TAAAC yn annibynnol ar y llywodraeth ac Awdurdodau Lleol ac mae ein penderfyniadau yn rhwymol yn gyfreithiol.

Dewis iaith

Mae'r triwlynlys yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r triwlynlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r triwlynlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Allaf i gael help os byddaf yn penderfynu gwneud hawliad?

Gallai fod hawl gennych i gael cymorth i baratoi eich hawliad. Gall y Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS) ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth arbenigol ichi ar wahaniaethu, a gallant roi gwybod hefyd ichi a oes cyllid cyhoeddus ar gael.

Ffôn: 0800 444 205

Gwefan: [Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb](#)

Post: FREEPOST, Equality Advisory Support Service, FPN4431

Gallai Cymdeithas y Cyfreithwyr neu eich cangen Cyngor ar Bopeth leol roi enwau cyfreithwyr ichi sydd â phrofiad o'r materion hyn.

Yr Amcan Gor-redol a'r Rhwymedigaeth i Gydweithredu

Amcan pwysicaf y Tribiwnlys yw ymdrin ag achosion yn deg ac yn gyfiawn. Mae'n ddisgwyliad gan y Tribiwnlys y bydd rhieni, cynrychiolwyr, swyddogion Awdurdodau Lleol a chyrrff cyfrifol, yn helpu i hybu'r amcan gor-redol drwy gydweithio â'i gilydd a'r Tribiwnlys er mwyn symud ymlaen gyda'r apêl neu'r cais.

Cynnwys

Cam 1 – penderfynu a ddylid gwneud hawliad 5

Cam 2 – gwneud hawliad 8

Cam 3 – wedi inni dderbyn eich hawlaid 12

Cam 4 – Mynd i'r gwrandawriad 14

Cam 5 – penderfyniad y Tribiwnlys 16

Canllaw cyflym i brif gamau hawliad 18

Cam 1 - penderfynu a ddyliid gwneud hawliad

Beth yw anabledd?

Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol (sy'n fwy na bach neu dibwys) a hirdymor (sy'n para o leiaf blwyddyn neu weddill eu hoes) ar allu person i ymgymryd â gweithgareddau arferol o ddydd i dydd yw anabledd.

- Os dyna'r unig anhawster, nid yw gwisgo sbectol yn gyfwerth ag anabledd. Mae cyflyrau sy'n digwydd yn rheolaidd neu sy'n rhywbeth dros dro yn unig, megis clefyd y gwair neu esgyrn wedi'u torri, yn cael eu heithrio, fel ag y mae bod yn gaeth i alcohol, tybaco a chyffuriau.

Pa agweddau ar Addysg sy'n cael eu cynnwys o dan y Ddeddf Cydraddoldeb?

Yn unol â'r Ddeddf, mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu, aflonyddu neu erlid person ar sail anabledd mewn perthynas â'r meysydd canlynol o fywyd ysgol:

Derbyn

Mae hyn yn cynnwys:

- trefniadau a wneir ar gyfer penderfynu pwy a dderbynnir fel disgybl
- y telerau a ddefnyddir fel sail ar gyfer gwneud cynnig i ddisgybl
- peidio â derbyn person fel disgybl.

Addysg a mynediad at unrhyw fudd, gwasanaeth a chyfleuster

Mae hyn yn cynnwys pob agwedd ar fywyd ysgol, gan gynnwys:

- y ffordd y darperir addysg
- y ffordd y darperir mynediad i ddisgyblion at unrhyw fudd, cyfleuster neu wasanaeth mewn ysgol
- peidio â darparu addysg i ddisgybl
- peidio â darparu mynediad i ddisgybl at fudd, cyfleuster neu wasanaeth mewn ysgol
- trwy wneud disgybl yn destun unrhyw niwed arall.

Mae'r gyfraith yr un mor gymwys i'r hyn sy'n digwydd amser egwyl ac amser cinio ag y mae i'r hyn sy'n digwydd amser gwersi ac mae'n gymwys hefyd i weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r ysgol, megis clybiau ysgol, clybiau ar ôl ysgol, gweithgareddau chwaraeon a theithiau ysgol.

Gwahardd

Mae hyn yn cynnwys:

- gwahardd yn barhaol neu am gyfnod penodol,
- gwahardd amser cinio

Beth yw gwahaniaethu ar sail anabledd?

Mae gwahaniaethu ar sail anabledd yn digwydd pan fydd person yn cael ei drin yn waeth (llai ffafriol neu anffafriol) na rhywun arall oherwydd anabledd.

Gall gwahaniaethu ar sail anabledd hefyd ddigwydd pan fydd rheol neu bolisi neu ffordd o wneud pethau wedi eu rhoi ar waith sy'n rhoi grŵp penodol o ddisgyblion anabl o dan anfantais o'u cymharu â disgyblion nad ydynt yn anabl a bod person anabl yn cael ei roi o dan anfantais o ganlyniad.

Beth yw'r matau o Wahaniaethu?

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn golygu bod pobl sydd ag anabledd neu sydd wedi bod ag anabledd yn cael eu diogelu rhag gwahanol fathau o wahaniaethu. Y rhain yw:

- Gwahaniaethu ar sail anabledd uniongyrchol
- Gwahaniaethu anuniongyrchol
- [Gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd](#)
- Methu â darparu addasiad rhesymol i blentyn anabl
- Aflonyddu sy'n gysylltiedig ag anabledd
- Erledigaeth sy'n gysylltiedig ag anabled

Gwahaniaethu ar sail anabledd uniongyrchol, mae hyn yn digwydd pan fydd disgybl yn cael ei drin yn waeth (llai ffafriol) na disgybl arall oherwydd anabledd. Gallai gwahaniaethu ar sail anabledd uniongyrchol ddigwydd hefyd pan fo disgybl yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd ei gysylltiad â disgybl anabl neu os credir yn anghywir bod ganddo anabledd.

Gwahaniaethu anuniongyrchol, mae hyn yn digwydd pan fydd rheol, polisi neu arfer yn berthnasol i bob disgybl / grŵp o ddisgyblion [penodol](#), [ond yn cael yr effaith o roi disgyblion ag anabledd penodol o dan anfantais o'u cymharu](#) gyda disgyblion nad ydynt yn anabl ac na ellir cyfiawnhau'r rheol, y polisi na'r ymarfer.

Gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd, mae hyn yn digwydd pan fydd disgybl anabl yn cael ei drin yn anffafriol am reswm sy'n gysylltiedig â'i anabledd ac na ellir cyfiawnhau'r driniaeth annheg. Ac, ni ellir dangos nad oedd yr Ysgol na'r Awdurdod Lleol yn gwybod am anabledd y disgybl ac na ellid disgwyl yn rhesymol iddynt wybod hyn.

Methu â darparu addasiad rhesymol i blentyn anabl, mae gan yr ysgol ddyletswydd i gymryd camau rhesymol i osgoi sefyllfa lle gallai disgybl anabl gael ei roi o dan anfantais. Gall hyn olygu bod rhaid cymryd camau cyn i'r disgybl ddechrau yn yr ysgol. Os na fydd ysgol wedi cydymffurfio â'i dyletswydd i gymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod disgybl anabl yn gallu cymryd rhan lawn yn yr addysg a'r gwasanaethau eraill a ddarperir gan yr ysgol, yna bydd achos o wahaniaethu.

Mae dyletswydd yr ysgol i wneud addasiadau rhesymol yn cynnwys gofyniad i ddarparu cymhorthion a gwasanaethau cynorthwyol, desgiau wedi'u haddasu neu therapi lleferydd ac iaith. Nid yw'n ofynnol i ysgol gael gwared ar nodweddion ffisegol na'u haddasu. Gall cymhorthion neu wasanaethau ychwanegol fod yn unrhyw beth sy'n rhoi cefnogaeth neu gymorth ychwanegol i berson anabl.

Aflonyddu sy'n gysylltiedig ag anabledd, mae hyn yn digwydd pan fydd disgybl yn derbyn ymddygiad nas dymunir sy'n gysylltiedig ag anabledd sydd â'r diben neu'r effaith o darfu ar urddas person neu sy'n elyniaethus, diraddiol, bychanol neu sarhaus i'r disgybl.

Erlledigaeth sy'n gysylltiedig ag anabledd, mae hyn yn digwydd pan fydd disgybl yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd ei fod yn gweithredu / wedi gweithredu neu y gallai weithredu'n ddidwyll o dan y Ddeddf Cydraddoldeb neu oherwydd ei fod yn cefnogi person o'r fath.

Pryd y gellir cyfiawnhau gwahaniaethu?

Er y gall eich plentyn fod wedi ei drin yn anffafriol neu ei fod wedi cael ei roi o dan anfantais, efallai na fydd y gwahaniaethu yn anghyfreithlon os gall yr ysgol neu'r Awdurdod Lleol ddangos bod cyfiawnhad am hynny.

Mewn achosion o wahaniaethu anuniongyrchol a gwahaniaethu sy'n codi o anabledd, mae cyfiawnhad yn golygu gallu dangos bod rheswm cyfreithlon a dilys am y driniaeth, a'i bod yn ymateb teg, cytbwys a rhesymol.

Beth am y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol?

Mae'n rhaid i ysgolion ac Awdurdodau Lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw disgyblion anabl, gan gynnwys plant nad ydynt eto yn yr ysgol ac mewn rhai achosion cyn-ddisgyblion, yn cael eu rhoi o dan **anfantais sylweddol** o'u cymharu â disgybl heb fod yn anabl.

Gallai cam rhesymol er enghraifft olygu diwygio polisi neu newid y ffordd y gwneir pethau.

Nid oes rhaid i ysgolion newid adeiladau. Mae hyn oherwydd bod gan ysgolion ac Awdurdodau Lleol ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i wella mynediad i adeiladau dros gyfnod o amser.

A ellir gwahaniaethu yn erbyn plentyn heb anabledd?

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn golygu bod pobl heb anabledd yn cael eu diogelu rhag rhai mathau o ymddygiad anghyfreithlon, sef:

- Gwahaniaethu uniongyrchol yn seiliedig ar gysylltiad, mae hyn yn digwydd pan fydd disgybl yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd ei gysylltiad â rhywun arall sydd ag anabledd.
- Gwahaniaethu uniongyrchol yn seiliedig ar ganfyddiad, mae hyn yn digwydd pan fydd disgybl yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd yr ystyrid yn anghywir bod ganddo anabledd.
- Aflonyddu sy'n gysylltiedig ag anabledd, mae hyn yn digwydd pan fydd disgybl yn derbyn ymddygiad nas dymunir sy'n gysylltiedig ag anabledd sydd â'r diben neu'r effaith o darfu ar urddas person neu sy'n elyniaethus, diraddiol, bychanol neu'n sarhaus i'r disgybl.

- Erledigaeth sy'n gysylltiedig ag anabledd, mae hyn yn digwydd pan fydd disgybl yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd ei fod yn gweithredu / wedi gweithredu neu y gallai weithredu'n ddidwyll o dan y Ddeddf

Pa hawliadau y gallai TAAAC ymdrin â nhw?

Mae TAAAC yn ymdrin â'r holl hawliadau sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd, aflonyddu ac erledigaeth yn erbyn ysgolion yng Nghymru, ac eithrio hawliadau am:

- benderfyniadau derbyn disgyblion ysgolion a gynhelir (mae'r rhain yn cael eu clywed gan banel apêl ynghylch derbyn disgyblion ar hyn o bryd), a
- gwaharddiadau parhaol o ysgolion a gynhelir (mae'r rhain yn cael eu clywed gan baneli apeliadau gwahardd ar hyn o bryd).

Mae ysgol a gynhelir yn ysgol sy'n derbyn gofal ac y telir amdani gan Awdurdod Lleol.

Cael gwybodaeth am eich achos - Ffurflen i ofyn cwestiynau.

Os credwch fod eich plentyn wedi dioddef gwahaniaethu, gallwch geisio cael gwybodaeth am eich achos gan yr ysgol neu'r Awdurdod Lleol dan sylw.

Mae ffurflen holi ac ateb y gallwch ei defnyddio i wneud hyn os ydych am wneud hynny:

- nid oes rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen ond gallai eich helpu i gael mwy o wybodaeth am yr hyn a ddigwyddodd,
- mae gan y ffurflen gwestiynau penodol,
- os byddwch yn penderfynu defnyddio'r weithdrefn bydd angen i chi ofyn am wybodaeth yn ysgrifenedig gan yr Ysgol neu'r Awdurdod Lleol cyn i chi wneud cais i TAAAC neu o fewn 28 diwrnod o wneud cais,
- nid oes raid i'r ysgol na'r Awdurdod Lleol roi atebion i'ch cwestiynau, ond os na dderbynnir ateb o fewn 8 wythnos ar ôl anfon y cais neu os yw'r atebion yn aneglur, yna gall y Tribiwnlys gymryd hynny i ystyriaeth wrth wneud ei benderfyniad,
- os ydych yn derbyn ateb, efallai y bydd yr atebion yn eich helpu i benderfynu a oes gennych hawliad dilys neu beidio,
- os ydych yn penderfynu gwneud hawliad gallai'r atebion fod yn rhan o'r dystiolaeth,
- gallwch gael copi o'r ffurflen ac arweiniad gan Swyddfa

Cydraddoldebau'r Llywodraeth (GEO) (manyllion cyswllt ar ddechrau'r llyfryn hwn).

Beth aral alla'i ei wneud?

Trefn gwyno'r ysgolion

Fel arfer mae o fudd i bawb geisio datrys anghytundebau yn y ffordd fwyaf syml posibl. Mae ysgolion yn debygol o gael trefn gwyno a ddylai fod yn gallu ymdrin â chwynion o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. Bydd eich ysgol yn gallu dweud mwy wrthyich am ei threfn gwyno.

Gwasanaethau Datrys Anghydfod Awdurdodau Lleol

Rhaid i Awdurdodau Lleol yng Nghymru fod â Gwasanaethau Datrys Anghydfod (GDA) annibynnol ar waith. Mae'r gwasanaeth yn ymdrin ag anghydfodau rhwng rhieni ac ysgolion mewn perthynas ag Anghenion Addysgol Arbennig. Mewn rhai achosion, mae'r gwasanaeth hefyd ar gael i helpu i ddatrys anghydfodau eraill.

Bydd eich Awdurdod Lleol yn gallu dweud mwy wrthyich am y gwasanaeth hwn a'ch hysbysu a yw ar gael i chi ai peidio.

Mewn rhai achosion, gall yr Ysgol a'r Awdurdod Lleol fod yn barod i gytuno i ddefnyddio gwasanaeth cyfryngu neu wasanaeth cymodi annibynnol sy'n delio â hawliadau sy'n gysylltiedig â'r ysgol os oes gwasanaeth o'r fath yn gweithio yn eich ardal.

Gwasanaeth Cymodi'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD)

Mae'r Gwasanaeth Cymodi Cydraddoldebau yn wasanaeth am ddim sy'n cael ei ariannu gan CCHD ar gyfer datrys anghytundebau ynghylch gwahaniaethu.

Bydd y Comisiwn yn gallu dweud mwy wrthyich am y gwasanaeth hwn.

Ni fydd yr un o'r gweithdrefnau hyn yn effeithio ar eich hawliad i TAAAC, maent yn hollol ar wahân i brosesau gwneud hawliad i TAAAC. Gallwch wneud hawliad ac yna barhau â'r dulliau eraill hyn o ddatrys anghydfod os ydych yn dymuno.

Hyd yn oed ar ôl i chi gyflwyno hawliad efallai y byddai'n ddefnyddiol cael trafodaethau gyda'r Corff Cyfrifol sy'n ymwneud â'ch achos gan ei bod yn bosibl datrys anghydfodau fel hyn weithiau, neu gytuno ar agweddau penodol o'ch hawliad, (mae hawliad bob amser yn erbyn y Corff Cyfrifol, fel arfer nail ai Corff Llywodraethol yr Ysgol, yr Awdurdod Lleol neu berchennog yr ysgol dan sylw).

Os byddwch yn penderfynu defnyddio'r Gwasanaethau Datrys Anghytundebau ar ôl i hawliad gael ei gofrestru gallwch wneud cais i lywydd y Tribiwnlys i atal yr hawliad am gyfnod. Gallech er enghraifft ddymuno atal yr hawliad yn ystod y cyfnod y bydd cyfarfodydd i ddatrys yr anghydfod yn cael eu cynnal.

Mae'n ddefnyddiol rhoi gwybod i ni am unrhyw gytundebau y gallech chi a'r Corff Cyfrifol eu llunio. Os ar unrhyw adeg y byddwch yn penderfynu nad ydych am barhau â'ch hawliad, bydd angen i chi anfon e-bost neu ysgrifennu atom i ddweud wrthym eich bod yn tynnu'r hawliad yn ôl.

Beth all TAAAC ei wneud i unioni pethau?

Gallai TAAAC orchymyn i ddarparwyr addysg gymryd camau i helpu i wneud iawn am unrhyw gyfleoedd y mae eich plentyn wedi eu colli ac i helpu i atal gwahaniaethu yn erbyn disgyblion anabl yn y dyfodol.

Gallai enghreifftiau gynnwys:

- hyfforddiant ar gyfer staff a Llywodraethwyr yr ysgol,
- ysgrifennu canllawiau newydd ar gyfer staff a Llywodraethwyr,
- gwneud diwygiadau i bolisiâu'r ysgol neu'r Awdurdod Lleol,
- darparu hyfforddiant ychwanegol i wneud iawn am ddysgu a gollwyd,
- ymddiheuro i ddisgybl naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig,
- darparu teithiau neu gyfleoedd eraill i wneud iawn am weithgareddau y gallai eich plentyn fod wedi'u colli.

Ni all TAAAC orchymyn talu iawndal.

Faint o amser mae hyn i gyd yn ei gymryd?

Mae'r broses gyfan, o'r adeg y byddwn yn derbyn hawliad at pryd y gwneir penderfyniad, fel arfer yn cymryd pedwar i bum mis. Gallai gymryd yn hirach gan ddibynnu ar y math o hawliad a pha mor gymhleth ydyw.

A oes rhaid i mi dalu unrhyw beth?

Nid yw TAAAC yn codi tâl am y gwasanaeth hwn.

Cam 2– gwneud hawliad

Terfynau amser

Mae yna chwe mis o derfyn amser ar gyfer gwneud hawliad i ni. Rhaid i ni dderbyn eich hawliad o fewn chwe mis i'r gwahaniaethu honedig.

Os ydych yn defnyddio Gwasanaeth Cymodi'r Comisiwn Cydraddoldebau a Hawliau Dynol (CCHD) neu os cewch eich cyfeirio ato cyn y daw'r ddau fis i ben, yna gallai'r terfyn amser ar gyfer gwneud hawliad gael ei ymestyn. Mae'n bwysig eich bod yn gofyn i TAAAC am yr estyniad cyn i'r cyfyngiad amser o chwe mis ddod i ben.

Pwy sy'n gallu gwneud hawliad?

Ar hyn o bryd dim ond rhiant neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant neu ofal am y plentyn o fewn diffiniad Deddf Addysg 1996, sy'n gallu gwneud hawliad.

Sut y dylwn i hawlio?

Er mwyn gwneud hawliad mae'n rhaid i chi lenwi ac anfon **Cais am Hawliad** at TAAAC. Gellir anfon ceisiadau atom yn y post neu drwy e-bost. Mae'r ffurflen i'w chael ar ein gwefan neu gallwch wneud cais am gopi wedi'i argraffu.

A oes rhaid i mi anfon y Cais am Hawliad fy hun?

Nac oes, ond mae'n rhaid i'r Cais am Hawliad gael ei lofnodi gennych chi (hynny yw'r person sy'n gwneud y Cais am Hawliad) neu eich cynrychiolydd ar eich rhan os ydych wedi rhoi caniatâd iddynt wneud hynny.

Pan fydd hawliad yn cael ei wneud gan blentyn, rhaid i'r Cais am Hawliad gael ei lofnodi gan y plentyn neu gyfaill achos y plentyn.

Cofiwch na fyddwn yn anfon gwybodaeth am yr hawliad ond at y person enwebedig a enwir ar y Cais am Hawliad. Bydd angen i chi dicio un o'r blychau ar y Cais am Hawliad i ddweud wrthym pwy ydych chi'n ei ddewis i dderbyn gwybodaeth am yr hawliad. Os nad ydych yn ticio blwch, byddwn yn anfon y wybodaeth at y person a enwir gyntaf.

Os oes gennych gynrychiolydd a'ch bod am iddynt dderbyn yr holl lythyrau a phapurau ar gyfer yr hawliad ar eich rhan, dylech roi ei enw a'i gyfeiriad ar y Cais am Hawliad.

Os ydych yn dweud ar y Cais am Hawliad bod eich cynrychiolydd yn mynd i dderbyn yr holl bapurau, ni fyddwch yn derbyn unrhyw ohebiaeth mewn cysylltiad â'ch hawliad cyn y gwrandawriad. Yn hytrach, byddwn yn ei hanfon i gyd at eich cynrychiolydd. Ond byddwn yn anfon y penderfyniad terfynol pan gaiff ei gyhoeddi atoch chi.

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni yn ysgrifenedig os byddwch yn penderfynu peidio â defnyddio eich cynrychiolydd neu os bydd manylion eich cynrychiolydd yn newid.

Alla' i anfon y Cais am Hawliad drwy e-bost?

Rhaid i Geisiadau am Hawliad sy'n cael eu hanfon drwy e-bost gynnwys llofnod electronig y rhiant sy'n gwneud yr hawliad neu, os rhoddir caniatâd, llofnod electronig ei gynrychiolydd.

Pwy y mae'r hawliad yn ei erbyn?

Mae eich hawliad yn erbyn y Corff Cyfrifol. Gall hyn amrywio yn dibynnu ar ymath o achos. Fel arfer hwn yw naill ai Corff Llywodraethol yr Ysgol, yr Awdurdod Lleol neu berchennog yr ysgol dan sylw.

Y Corff Cyfrifol yw'r sefydliad sy'n gyfrifol am yr ysgol. Nid oes angen i chiddweud wrthym pwy yw'r Corff Cyfrifol; y cyfan sydd angen i chi ei ddweud wrthym yw beth yw enw a chyfeiriad yr ysgol neu'r lle addysg lle y digwyddoddy gwahaniaethu honedig.

Os yw'r ysgol yn un a gynhelir (sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol) rhaid

i chi hefyd ddweud wrthym enw'r Awdurdod Lleol. Ni allwch enwi person unigol fel y pennaeth fel y Corff Cyfrifol.

Beth sydd angen i mi ddweud wrthy ch amdano?

Os byddwch yn gwneud cais bydd angen i chi ddweud wrthym am y canlynol:

Defnyddiwch yr adran hon fel rhestr wirio wrth lenwi eich Ffurflen Hawliad.

Adran 1, Eich plentyn
Mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth am eich plentyn a'i anabledd
Adran 2, Eich manylion cyswllt
Mae'r adran hon yn gofyn am eich manylion chi
Adran 3, Gwybodaeth am bersonau sydd â chyfrifoldeb rhiant neu sy'n rhannu y plentyn.
Mae'r adran hon yn gofyn am fanylion unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn. Dylech roi gwybod inni os oes yna reswm da dros beidio â darparu'r wybodaeth.
Adrannau 4 a 5, Gwybodaeth am eich cynrychiolydd
Mae'r adran hon yn gofyn ichi am fanylion eich cynrychiolydd a phwy ddylai gael y gwaith papur.
Adran 6, Eich Hawliad
Mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth am eich hawliad a'r ysgol neu'r lleoliad addysg perthnasol. Dyma lle mae angen ichi ddweud beth sydd wedi digwydd a pham yr ydych chi'n gwneud hawliad. Mae canllawiau i'w cael yn ddiweddarach yn y llyfryn hwn i'ch helpu.
Adran 7 Rhesymau
Yn yr adran hon rhaid ichi ddweud beth sydd wedi digwydd a pham yr ydych chi'n gwneud hawliad.
Adran 8, Unioni'r sefyllfa

Yn yr adran hon gallwch ddweud wrthym beth yr hoffech chi ei weld yn digwydd os bydd y Tribiwnlys yn penderfynu bod achos o wahaniaethu anghyfreithlon yn erbyn eich plentyn.

Adran 9 Apeliadau AAA

Nodwch a hoffech chi gydgrynhoi apêl.

Adran 10, Camau a gymerwyd eisoes

Dywedwch wrthym am y camau a gymerwyd eisoes (os cymerwyd unrhyw gamau) i ddatrys yr anghydfod.

Adran 11, Gwybodaeth fonitro

Mae'r adran hon yn gofyn am eich manylion chi.

Adran 12, Llofnodion

Sicrhewch bod y ffurflen wedi'i llofnodi cyn ei hanfon i'r Tribiwnlys. Os ydych yn ei hanfon fel atodiad i e-bost, gallwch deipio eich enw (neu gall eich cynrychiolydd sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith wneud hynny).

Adran 13, Anfon atom eich hawliad

Mae'r adran hon yn egluro i ble y dylid anfon eich ffurflen hawliad wedi ichi ei llenwi.

Pa ddogfennau y dylwn i eu hanfon gyda'r Cais am Hawliad?

Ym mhob achos, bydd angen i chi anfon y canlynol atom:

llythyr yn cadarnhau eich bod wedi dweud wrth yr holl bobl a sefydliadau sydd wedi neu sy'n rhannu cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sy'n gofalu am y plentyn, eich bod yn bwriadu gwneud hawliad, **NEU**

llythyr gan roi'r rhesymau pam nad ydych wedi hysbysu pob person neu wedi peidio â darparu enwau a chyfeiriadau'r holl bersonau,

Ydych yn credu bod mwy o wybodaeth a fydd yn helpu TAAAC a'r Corff Cyfrifol i ddeall eich hawliad, anfonwch hi.

A oes rhaid i mi anfon dogfennau gwreiddiol gyda'r hawliad?

Gofalwch fod unrhyw ddogfennau a anfonwch atom yn llungopiâu o'r gwreiddiol.

Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n dymuno tynnu'r hawliad yn ôl?

Os byddwch yn penderfynu nad ydych am barhau â'r hawliad, gallwch ei dynnu'n ôl yn ystod unrhyw gam yn y broses. I dynnu eich hawliad yn ôl, mae angen i chi ddweud hyn wrthym yn ysgrifenedig, trwy e-bost neu mewn llythyr.

Cam 3 – wedi inni dderbyn eich hawliad

Beth sy'n digwydd wedi inni dderbyn eich hawliad?

Byddwn yn cofrestru eich hawliad cyn pen 10 diwrnod gwaith o'i dderbyn ac yn anfon copi at y Corff Cyfrifol.

Byddwn yn rhoi gwybod ichi pryd fydd yr hawliad yn cael ei gofrestru ac erbyn pryd y bydd rhaid ichi anfon eich datganiad achos a'ch ffurflen bresenoldeb. Byddwch yn cael cyfnod o 30 o ddiwrnodau gwaith i gyflwyno eich datganiad achos a'ch ffurflen bresenoldeb.

Byddwn yn ysgrifennu atoch hefyd os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom cyn prosesu eich hawliad.

Beth yw datganiad achos?

Mae eich datganiad achos yn gyfle i chi anfon rhagor o wybodaeth atom. Gall hyn fod yn unrhyw wybodaeth a thystiolaeth y dymunwch i ni edrych arni fel rhan o'ch hawliad.

Pan fyddwn yn cofrestru eich hawliad byddwn yn anfon copi at y Corff Cyfrifol. Byddwn hefyd yn rhoi 30 diwrnod gwaith i'r Corff Cyfrifol anfon ei ddatganiad achos atom.

A oes rhaid i mi wneud datganiad achos?

Oes, fel isafswm rhaid i chi anfon y wybodaeth ganlynol atom fel rhan o'ch datganiad achos.

Mae'n rhaid i'ch datganiad achos gynnwys:

Ym mhob achos lle gwnaed yr hawliad gan riant y plentyn:

- barn y plentyn am y materion a godwyd yn yr hawliad, neu
- y rhesymau pam na ddarparwyd y safbwyntiau.

Lle gwnaed yr hawliad gan y plentyn neu gyfaill achos y plentyn:

- barn rhiant y plentyn am y materion a godwyd yn yr hawliad, neu
- y rhesymau pam na ddarparwyd y safbwyntiau.

Mae'n ofniad yn ôl rheoliadau'r Tribiwnlys fod barn y plentyn neu'r rhiant, yn dibynnu ar bwy sydd wedi gwneud yr hawliad, yn cael ei rhoi. Bydd panel y tribiwnlys yn disgwyl i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn eich datganiad achos oni bai fod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.

Beth fydd y Corff Cyfrifol yn ei wneud am fy hawliad?

Rhaid i'r Corff Cyfrifol baratoi ymateb a'i anfon i'r Tribiwnlys cyn pen 30 o ddiwrnodau gwaith o dderbyn yr hawliad.

Beth os na fydd y Corff Cyfrifol yn ymateb?

Os na fydd y Corff Cyfrifol yn anfon ymateb erbyn diwedd yr amserlen a ganiateir, bydd eich apêl yn cael ei drosglwyddo i Gadeirydd y Tribiwnlys a fydd yn penderfynu pa gamau i'w cymryd. Gallai hyn gynnwys gwrthod caniatáu i'r Corff yfrifol barhau i gymryd rhan yn y trafodion.

Beth sy'n digwydd i'r datganiad achos?

Unwaith y bydd y dyddiad cau ar gyfer anfon datganiadau achos wedi mynd heibio, byddwn yn anfon copi o'r holl bapurau a gawsom am yr hawliad atoch chi a'r Corff Cyfrifol.

Os yw'r achos yn mynd i wrandawriad, bydd panel y tribiwnlys yn ystyried y datganiadau achos ac unrhyw ddogfennau eraill a ddarperir gennych chi a'r Corff Cyfrifol, ynghyd â'r dystiolaeth y bydd yn ei glywed, er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad am eich hawliad.

Cam 4 – mynd i'r gwrandawriad

Mae DVD ar gael i ddangos i chi'r hyn i'w ddisgwyl mewn gwrandawriad. Gallwch ofyn i ni am gopi o'r DVD drwy gysylltu â ni.

Pryd y byddwch yn dweud wrthyf am y dyddiad ar gyfer y gwrandawriad?

Byddwn yn ysgrifennu atoch, fel arfer ar ôl y dyddiad cau ar gyfer datganiadau achos, i adael i chi wybod y dyddiad y cynhelir y gwrandawriad.

Ble fydd fy ngwrandawriad yn cael ei gynnal?

Rydym yn cynnal gwrandawriadau ledled Cymru a byddwn yn ceisio cynnal eich gwrandawriad chi o fewn cwpwl oriau o bellter teithio o'ch cartref. Rydym fel arfer yn cynnal gwrandawriad mewn adeiladau cyhoeddus, fel gwestai. Bydd y gwrandawriad ei hun mewn ystafell breifat.

Rydym yn defnyddio lleoliadau sy'n gwbl hygyrch i ddefnyddwyr anabl. Gadewch i ni wybod os oes gennych unrhyw anghenion penodol.

Pryd fydd fy ngwrandawriad yn dechrau a pha mor hir y bydd yn para?

Bydd eich gwrandawriad ar amser penodol sydd fel arfer yn 10:00 yp. Dylech anelu at gyrraedd o leiaf 30 munud cyn i'r gwrandawriad ddechrau. Mae gwrandawriadau fel arfer yn cymryd trwy'r dydd ond nid ydynt fel arfer yn mynd ymlaen ar ôl 5:00 yb.

Pwy fydd yn gwrando fy hawliad?

Bydd eich hawliad yn cael ei glywed gan banel y Tribiwnlys. Mae un person ar y panel yn gyfreithiwr a fydd yn cadeirio'r gwrandawriad. Mae gan y ddau aelod arall wybodaeth arbenigol a phrofiad o blant gydag anghenion addysgol arbennig ac anabled.

A oes rhaid i mi ddod i'r gwrandawriad?

Nid oes rhaid i chi ddod i'r gwrandawriad, ond byddai'n fuddiol pe baech yn dod. Bydd y panel yn dymuno clywed beth sydd gennych chi i'w ddweud am eich hawliad ac efallai y bydd gan y panel rai cwestiynau i'w gofyn i chi hefyd. Efallai yr hoffech chi hefyd ofyn cwestiynau.

Pwy arall allai ddod i'r gwrandawriad?

Eich cynrychiolydd

Gallwch gael rhywun yn y gwrandawriad i'ch cynrychioli os ydych yn dod eich hun ai peidio. Nid oes rhaid i'r unigolyn hwnnw fod yn gyfreithiwr.

Rhieni'r plentyn

Gallai rhiant neu unigolyn â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn ddod i'r gwrandawriad, hyd yn oed os mai nid nhw sy'n gwneud yr hawliad.

Eich plentyn

Gallai eich plentyn ddod i'r gwrandawriad a siarad â'r panel a rhoi tystiolaeth os yw'n dymuno gwneud hynny. Mae'n debygol y bydd y panel yn awyddus i siarad â'ch plentyn chi am ran o'r gwrandawriad yn unig. Mae'n rhaid i chi drefnu i rywun ddod draw a allai ofalu am eich plentyn pan nad yw yn y gwrandawriad. Ni fydd staff y tribiwnlys yn gallu edrych ar ôl eich plentyn ac efallai na fydd lle addas yn yr adeilad iddo dderbyn gofal gan y person sy'n gofalu amdano.

Rhywun i roi cefnogaeth

Gallwch ddod ag un person gyda chi i'ch cefnogi. Bydd hwnnw yn gallu dod i mewn i'r gwrandawriad, ond ni fydd yn gallu cymryd rhan yn y gwrandawriad na chymryd nodiadau yn ystod y gwrandawriad.

Tystion

Gallwch ddod â hyd at ddau dyst i'r gwrandawriad.

Gallai dewis pwy sydd i ddod fel tystion yn y gwrandawriad fod yn anodd. Dylai'r tystion a ddewiswch fod yn gallu trafod prif faterion eich hawliad fel y maent yn ymwneud yn benodol â'ch plentyn. Mae'n rhaid i dystion ddisgwyl ateb cwestiynau am eu tystiolaeth. Bydd arnynt angen gwybodaeth dda am y ffeithiau a'r rhesymeg y tu ôl i'r wybodaeth y maent yn ei rhoi.

Dylid gofyn i unrhyw dyst arbenigol roi tystiolaeth gyda'r bwriad o gynorthwyo'r Tribiwnlys gyda'u barn broffesiynol yn hytrach na dim ond cefnogi eich achos. Gallai tystiolaeth arbenigol sy'n ymddangos yn rhagfarnllyd golli hygredd.

Eiriolwr

Gallwch ddod â rhywun i gyfleu barn a dymuniadau'r plentyn gyda chi.

Pwy allai'r Corff Cyfrifol ddod gydag ef i'r gwrandawriad?

Gall y Corff Cyfrifol fynychu'r gwrandawriad a dod â chynrychiolydd, sy'n gymwys yn gyfreithiol ai peidio, i'r gwrandawriad. Gall hefyd alw hyd at ddau dyst i'r gwrandawriad, dod â sylwedydd ac eiriolwr. Fel chi bydd yn rhaid iddo hefyd lenwi ffurflen presenoldeb. Byddwn yn ysgrifennu atoch cyn y gwrandawriad i gadarnhau pwy sy'n dod i'r gwrandawriad.

Pa dreuliau y gellir eu hawlio?

Gallwch chi a'ch tystion hawlio costau teithio i ddod i'r gwrandawriad. Os ydych yn dod â ffrind neu berthynas i ofalu am eich plentyn, byddwch yn gallu hawlio eu costau teithio nhw hefyd.

Dylech ddefnyddio cludiant cyhoeddus lle bo modd (teithio ar y bws, tram, trê'n dosbarth safonol). Os ydych yn teithio mewn car, gallwch hawlio swm penodol am filltiroedd. Byddwn yn talu costau tacsî dim ond os nad oes trafndiaeth gyhoeddus ar gael, neu os oes gennyh anghenion penodol. (Rhaid i chi ddweud wrthym am y rhain cyn hawlio eich

treuliau). Bydd angen i ni awdurdodi unrhyw gostau tacsï ymlaen llaw. Ni allwn dalu am barcio ceir a thollau.

Gall eich tystion hawlio swm penodol am golli enillion hefyd.

Cam 5 – penderfyniad y Tribiwnlys

Pryd fyddaf i'n cael gwybod am benderfyniad y Tribiwnlys?

Fel arfer, bydd y penderfyniad ysgrifenedig a'r rhesymau yn cael eu hanfon trwy'r post cyn pen 10 diwrnod gwaith o ddyddiad y gwrandawriad. Byddwn yn anfon y penderfyniad atoch chi, eich cynrychiolydd (os oes gennych un) a'r Corff Cyfrifol

A fyddwch chi'n cadarnhau bod yna wahaniaethu

Os penderfynwn fod yna achos o wahaniaethu anghyfreithlon, byddwn yn datgan hynny yn ein penderfyniad.

Beth y gall y Tribiwnlys ei ddweud y dylai'r Corff Cyfrifol ei wneud?

Gallwn orchymyn y Corff Cyfrifol i wneud unrhyw beth rhesymol i wneud iawn am y gwahaniaethu, ac eithrio talu iawndal ariannol. Nid yw'r gyfraith yn caniatáu i ni orchymyn iawndal.

Gallwn orchymyn camau gweithredu a fydd yn helpu i wneud yn iawn am unrhyw gyfle mae eich plentyn wedi'i golli neu er mwyn atal gwahaniaethu yn y dyfodol. Er enghraifft:

- hyfforddi staff ysgol
- llunio canllawiau newydd ar gyfer staff;
- newid polisïau ysgol;
- rhoi hyfforddiant ychwanegol, i wneud yn iawn am unrhyw ddysgu a gollwyd;
- newid lleoliad gwersi neu weithgareddau (ond dim newid nodweddion ffisegol y fangre);
- rhoi ymddiheuriad ysgrifenedig i'ch plentyn;
- trefnu teithiau neu gyfleoedd eraill i wneud yn iawn am weithgareddau y gallai eich

Faint o amser sydd gan y Corff Cyfrifol i gyflawni'r gorchymyn?

Byddwn yn gofyn i'r Corff Cyfrifol gyflawni'r gorchymyn o fewn amser penodol. Mae'n rhaid iddynt wneud hyn yn ôl y gyfraith. Os na fyddant, nid oes gan y Tribiwnlys unrhyw bwerau gorfodi ond mae yna gamau eraill y gallech eu cymryd i orfodi gorchymyn y Tribiwnlys.

Beth os na fydd y Corff Cyfrifol yn cydymffurfio â'r penderfyniad?

Os na fydd y Corff Cyfrifol yn gwneud yr hyn y byddwn yn ei orchymyn o fewn yr amserlen a bennir, ac os na allant roi eglurhad derbyniol pam, bydd hawl gennych gwyno wrth yr Adran Addysg a Sgiliau. Y cyfeiriad yw:

Yr Adran Addysg a Sgiliau

Llywodraeth Cymru

Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Beth alla' i ei wneud os nad wyf yn hapus am eich penderfyniad?

Mae ein penderfyniad yn derfynol. Os ydych yn credu bod problem dechnegol gyda'r penderfyniad a sut y cafodd ei wneud, gallwch ofyn i ni ei adolygu. Ni fyddwn yn adolygu ein penderfyniad oherwydd nad ydych yn hapus ag ef yn unig. Rhaid i ni dderbyn eich cais ysgrifenedig i adolygu o fewn 28 diwrnod calendr o'r dyddiad y bu i ni gyhoeddi'r penderfyniad.

Os ydych yn credu bod y penderfyniad yn anghywir yn ôl y gyfraith, gallwch apelio i Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys, ond mae'n rhaid i chi wneud cais i ni am ganiatâd i apelio yn gyntaf. Rhaid i chi wneud eich cais fel y byddwn yn ei dderbyn ddim mwy na 28 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr a anfonwyd gyda'r penderfyniad.

Canllaw cyflym i brif gamau hawliad

Gwneud hawlaid

- mae gennych derfyn amser o **6 mis** o'r adeg y digwyddodd y gwahaniaethu honedig i wneud hawliad i **TAAAC**
- bydd angen i chi gwblhau Cais am Hawliad a dweud wrthym am:
 - anabledd eich plentyn os oes ganddo un,
 - beth a ddigwyddodd,
 - y dyddiadau y digwyddodd y gwahaniaethu honedig,
 - pam y credwch fod y driniaeth o ganlyniad i anabledd,
 - ym mha ffordd y mae eich pentyn wedi cael ei drin yn llai fafriol neu ei osod o dan anfantais,
 - yn achos gwahaniaethu anuniongyrchol a gwahaniaethu sy'n codi o anabled, pam y credwch nad oedd cyfiawnhad dros y driniaeth honno,
 - Beth chi'n gofyn i TAAAC ei wneud i unioni pethau.
- os gallwn ddelio gyda'ch hawliad, byddwn yn ei gofrestru ac yn anfon copi at y Corff Cyfrifol. Bwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol a / neu'r Awdurdod Lleol a / neu berchennog yr ysgol fydd hwn fel arfer.

Datganiadau achos

Byddwn yn rhoi 30 diwrnod gwaith i chi a'r corff cyfrifol adael i ni gael mwy o wybodaeth a thystiolaeth yn ymwneud a ch hawlaid. Y datganiad achos yw'r enw a roddir ar hyn.

- Mae'n rhaid i chi wneud datganiad achos, os ydych yn rhiant rhaid i chi gynnwys barn y plentyn, os ydych yn blentyn rhaid i chi gynnwys barn y rhieni. Os nad ydych wedi cynnwys barn mae'n rhaid i chi ddweud wrthym pam,
- Os nad yw'r corff cyfrifol yn anfon datganiad achos neu os nad yw'n gwrthwynebu'r hawliad, yna efallai na fydd yn gallu mynychu'r gwrandawriad.
- Ar ddiwedd cyfnod y datganiad achos, byddwn yn anfon copi o bopeth yr ydym wedi ei dderbyn atoch chi a'r Corff Cyfrifol.

y Gwrandawriad

- byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthych beth yw dyddiad y gwrandawriad,
- caniateir i chi gael cynrychiolydd, hyd at 2 dyst, cefnogwr a rhywun i ddweud wrthym beth yw barn a dymuniadau'r plentyn yn y gwrandawriad,
- Cynhelir gwrandawriadau fel arfer mewn gwestai, ni ddylai'r daith i'r gwrandawriad fel arfer gymryd mwy nag ychydig o oriau,
- mae gwrandawriadau fel arfer yn dechrau am 10am ac yn para drwy'r dydd,
- bydd clercc o'r Tribiwnlys yn eich cyfarfod ac yn dangos i chi ble i fynd,
- bydd grŵp o dri o bobl o'r Tribiwnlys yn y gwrandawriad hefyd. Rydym yn galw'r bobl hyn yn banel y tribiwnlys,
- bydd panel y tribiwnlys yn dymuno gofyn i chi a'r Corff Cyfrifol am eich achos, beth yn eich barn chi yw'r ffeithiau perthnasol a beth ddylid ei wneud i unioni pethau,
- byddwch chi a'r Corff Cyfrifol yn cael cyfle i ofyn cwestiynau,

ein penderfyniad

- byddwn fel arfer yn anfon ein penderfyniad atoch o fewn 10 diwrnod gwaith o'r gwrandawriad,
- os ydym yn cytuno gyda'ch cais, gallwn orchymyn y Corff Cyfrifol i wneud unrhyw beth sy'n rhesymol i gywiro pethau,
- ni allwn orchymyn iawndal ariannol,
- mae ein penderfyniad yn derfynol. Os ydych yn credu bod gwall technegol gallwch ofyn i ni ei adolygu. Os ydych yn credu ein bod yn anghywir ar bwynt cyfreithiol gallwch ofyn i ni am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys. Mae terfynau amser ar gyfer y gweithdrefnau hyn.